



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 Rhif 3137 (Cy.301)

2003 No. 3137 (W.301)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**Gorchymyn Caerdydd (Cymunedau
Ystum Taf, yr Eglwys Newydd,
Llanisien, Llys-Faen, Trelái a Sain
Ffagan) 2003**

**The Cardiff (Llandaff North,
Whitchurch, Llanishen, Lisvane,
Ely and St. Fagans Communities)
Order 2003**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi effaith i gynigion gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru. Effaith y Gorchymyn yw newid ffiniau rhwng cymunedau: Ystum Taf a'r Eglwys Newydd; Llanisien a Llys-Faen; a Threlái a Sain Ffagan. Ychwanegir un cynghorydd cymuned yng nghymuned Sain Ffagan.

This Order, made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972, gives effect to proposals by the Local Government Boundary Commission for Wales. The effect of the Order is that there are changes between the community boundaries of: Llandaff North and Whitchurch; Llanishen and Lisvane; and Ely and St. Fagans. There will be an increase of one community councillor in the community of St. Fagans.

Gwnaed adroddiad yn Nhachwedd 2002 gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol ar adolygiad a gynhaliwyd gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd ar y ffiniau rhwng cymunedau: Ystum Taf a'r Eglwys Newydd; Llanisien a'r Llys-Faen; a Threlái a Sain Ffagan; yn Ninas a Sir Caerdydd. Argymhellodd yr adroddiad newidiadau i'r ffiniau presennol. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi'r argymhellion hynny ar waith heb newidiadau.

The Local Government Boundary Commission for Wales reported in November 2002 on a review conducted by the County Council of the City and County of Cardiff on the boundaries between the communities of: Llandaff North and Whitchurch; Llanishen and Lisvane; and Ely and St. Fagans; in the City and County of Cardiff. The report recommended changes to the existing boundaries. This Order gives effect to those recommendations without modification.

Mae printiau o'r mapiau ffiniau A-Ch wedi eu hadneuo a gellir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Cyngor, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd ac yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd (Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol).

Prints of the boundary maps A-D are deposited and may be inspected during normal office hours at the offices of the County Council of the City and County of Cardiff at County Hall, Atlantic Wharf, Cardiff and at the offices of the National Assembly for Wales at Cathays Park, Cardiff (Local Government Modernisation Division).

Mae Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (fel y'u diwygiwyd ("Rheoliadau 1976")), y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(4)

The Local Government Area Changes Regulations 1976 (as amended) ("the 1976 Regulations"), referred to in Article 1(4) of this Order contain incidental,

o'r Gorchymyn hwn, yn cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol ac atodol ynghylch effaith a gweithrediad gorchmynion megis y gorchymyn hwn.

Yn rhinwedd Rheoliad 40 o Reoliadau 1976, dehonglir cyfeiriadau yng Ngorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Trefniadau Etholiadol) 1998 at gymunedau Ystum Taf, yr Eglwys Newydd, Llanisien, Llys-Faen, Trelái a Sain Ffagan fel cyfeiriadau at y cymunedau hynny fel y'u newidir gan y Gorchymyn hwn.

consequential, transitional and supplementary provision about the effect and implementation of orders such as this.

By virtue of Regulation 40 of the 1976 Regulations, references in The City and County of Cardiff (Electoral Arrangements) Order 1998 to the communities of Llandaff North, Whitchurch, Llanishen, Lisvane, Ely and St. Fagans will be construed as references to those communities as altered by this Order.

2003 Rhif 3137 (Cy.301)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Gorchymyn Caerdydd (Cymunedau
Ystum Taf, yr Eglwys Newydd,
Llanisien, Llys-Faen, Trelái a Sain
Ffagan) 2003**

Wedi'u gwneud *27 Tachwedd 2003*

Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2)

Gan fod Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru wedi cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(a), adroddiad dyddiedig Tachwedd 2002 ar adolygiad a gyflawnwyd gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd ar y ffiniau rhwng cymunedau: Ystum Taf a'r Eglwys Newydd; Llanisien a Llys-Faen; a Threlái a Sain Ffagan; yn Ninas a Sir Caerdydd ynghyd â chynigion a luniwyd ganddo arnynt;

A chan fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hynny, heb newidiadau;

A bod mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu gwneud;

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru(b) yn awr yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Caerdydd (Cymunedau Ystum Taf, yr Eglwys

(a) 1972 p.70.

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) erthygl 2 ac Atodlen 1.

2003 No. 3137 (W.301)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**The Cardiff (Llandaff North,
Whitchurch, Llanishen, Lisvane,
Ely and St. Fagans Communities)
Order 2003**

Made *27th November 2003*

Coming into force in accordance with Article 1(2)

The Local Government Boundary Commission for Wales, having submitted to the National Assembly for Wales, in accordance with sections 54(1) and 58(1) of the Local Government Act 1972(a), a report dated November 2002 on a review conducted by the County Council of the City and County of Cardiff on the boundaries between the communities of: Llandaff North and Whitchurch; Llanishen and Lisvane; and Ely and St. Fagans; in the City and County of Cardiff, together with proposals formulated by the Commission thereon;

And the National Assembly for Wales having decided to give effect to those proposals, without modification;

And more than six weeks having elapsed since those proposals were made;

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 58(2) of the Local Government Act 1972 and which are vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in relation to Wales(b), now makes the following Order:

Title and commencement

1.-(1) This Order is called the Cardiff (Llandaff North, Whitchurch, Llanishen, Lisvane, Ely and St.

(a) 1972 c.70.

(b) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2 and Schedule 1.

Newydd, Llanisien, Llys-Faen, Trelái a Sain Ffagan) 2003.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2004, a hwnnw yw'r diwrnod penodedig ("appointed day") at ddibenion Rheoliadau 1976, ond at y dibenion a nodir yn Rheoliad 4 o Reoliadau 1976, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2003.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr Map A ("*Map A*") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map A Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Ystum Taf a'r Eglwys Newydd) 2003" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau 1976;

ystyr Map B ("*Map B*") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map B Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Llanisien a Llys-Faen) 2003" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau 1976;

ystyr Map C ("*Map C*") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map C Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Trelái a Sain Ffagan (1)) 2003" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau 1976;

ystyr Map Ch ("*Map D*") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map Ch Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Trelái a Sain Ffagan (2)) 2003" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau 1976; ac

ystyr "Rheoliadau 1976" ("*the 1976 Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(a).

Newidiadau i Ffiniau Cymunedau

3. Mae'r ffiniau rhwng cymunedau i Ystum Taf a'r Eglwys Newydd; Llanisien a'r Llys-Faen; ac Trelái a Sain Ffagan yn cael eu diwygio yn unol ag erthygl 4.

Ffiniau Cymunedau Newydd

4.-(1) Mae'r ffin rhwng cymundau Ystum Taf a'r Eglwys Newydd i fod fel a ddangosir ar Fap A wedi'i farcio fel "y Ffin Gymunedol Newydd".

(2) Mae'r ffin rhwng cymundau Llanisien a Llys-Faen i fod fel a ddangosir ar Fap B wedi'i farcio fel "y Ffin Gymunedol Newydd".

(3) Mae'r ffin rhwng cymundau Trelái a Sain Ffagan i fod fel a ddangosir ar Fapiau C ac Ch wedi'u marcio fel "y Ffin Gymunedol Newydd".

(a) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amrywiol offerynnau statudol lle nad yw'r diwygiadau yn berthnasol i'r O.S. hwn).

Fagans Communities) Order 2003.

(2) This Order comes into force on 1 April 2004, which is the appointed day for the purposes of the 1976 Regulations, except that for the purposes set out in Regulation 4 of the 1976 Regulations, this Order comes into force on 1 December 2003.

Interpretation

2. In this Order-

"the 1976 Regulations" ("*Rheoliadau 1976*") means the Local Government Area Changes Regulations 1976(a);

Map A ("*Map A*") means the map prepared by the National Assembly for Wales and marked "Map A City and County of Cardiff (Llandaff North and Whitchurch) Order 2003" and deposited in accordance with Regulation 5 of the 1976 Regulations;

Map B ("*Map B*") means the map prepared by the National Assembly for Wales and marked "Map B City and County of Cardiff (Llanishen and Lisvane) Order 2003" and deposited in accordance with Regulation 5 of the 1976 Regulations;

Map C ("*Map C*") means the map prepared by the National Assembly for Wales and marked "Map C City and County of Cardiff (Ely and St. Fagans (1)) Order 2003" and deposited in accordance with Regulation 5 of the 1976 Regulations; and

Map D ("*Map Ch*") means the map prepared by the National Assembly for Wales and marked "Map D City and County of Cardiff (Ely and St. Fagans (2)) Order 2003" and deposited in accordance with Regulation 5 of the 1976 Regulations.

Amendment of community boundaries

3. The boundaries between the communities of: Llandaff North and Whitchurch; Llanishen and Lisvane; and Ely and St. Fagans; are amended in accordance with Article 4.

New Community Boundaries

4.-(1) The boundary between the communities of Llandaff North and Whitchurch is to be as shown on Map A marked as the "New Community Boundary".

(2) The boundary between the communities of Llanishen and Lisvane is to be as shown on Map B marked as the "New Community Boundary".

(3) The boundary between the communities of Ely and St. Fagans is to be as shown on Maps C and D marked as the "New Community Boundary".

(a) S.I. 1976/246 (as amended by various statutory instruments which amendments are not relevant to this S.I.).

Cynghorydd Cymuned Ychwanegol

5. Cynyddir y nifer o gynghorwyr cymuned i'w hethol ar gyfer cymuned Sain Ffagan i 9.

Additional Community Councillor

5. The number of community councillors to be returned for the community of St. Fagans is increased to 9.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

27 Tachwedd 2003

27th November 2003

Karen Sinclair


Y Trefnydd

Minister for Assembly Business

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.


Map A Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Ystum Taf a'r Eglwys Newydd) 2003



Seillir y map hwn ar fap Arolwg Ordnans gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Eitl Mawrhydi. © Hawlfraint y Geon 2003. Cedwir pob hawl. Byddai ei atgynrychiu heb ganiatâd yn torri hawlfraint a gallai arwain at eich erlynnu neu ddwyn achos sifil yn eich erbyn. Rhif trwydded 10017916


Cartograffeg: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Map A City and County of Cardiff (Llandaff North and Whitchurch) Order 2003



This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2003. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: GD 272221


Map B Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Llanisien a Llys-faen) 2003



Seilir y map hwn ar fap Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron 2003. Cedwir pob hawl. Byddai ei atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri'r hawlfraint a gallai arwain at eich erlyn neu ddwyn achos sifil yn eich erbyn. Rhif trwydded 10017916

CartoGraffeg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru


Map B City and County of Cardiff (Llanishen and Lisvane) Order 2003



This map is based upon the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2003. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: GD 272221

CartoGraphics, National Assembly for Wales


Map C Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Trelái a Sain Ffagan (1)) 2003



Seilir y map hwn ar fap Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron 2003. Cedwir pob hawl. Byddai ei atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri'r hawlfraint a gallai arwain at eich erlyn neu ddwyn achos sifil yn eich erbyn. Rhif trwydded 10017916

CartoGraffeg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru


Map C City and County of Cardiff (Ely and St Fagans (1)) Order 2003



This map is based upon the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2003. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: GD 272221

CartoGraphics, National Assembly for Wales


Map Ch Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Trelái a Sain Ffagan (2)) 2003



Sellir y map hwn ar fap Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron 2003. Cedwir pob hawl. Byddai ei atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri'r hawlfraint a gallai arwain at eich erlyn neu ddwyn achos sifil yn eich erbyn. Rhif trwydded 10017916

CartoGraffeg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Map D City and County of Cardiff (Ely and St Fagans (2)) Order 2003



This map is based upon the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2003. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: GD 272221

OFFERYNNAU STATUDOL

2003 Rhif 3137 (Cy.301)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Gorchymyn Caerdydd (Cymunedau
Ystum Taf, yr Eglwys Newydd,
Llanisien, Llys-Faen, Trelái a Sain
Ffagan) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 No. 3137 (W.301)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Cardiff (Llandaff North,
Whitchurch, Llanishen, Lisvane,
Ely and St. Fagans Communities)
Order 2003

© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£4.00


W232/01/04

ON

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090850-3



9 780110 908502